# Cyfarwyddyd i gerbydau ar gyfer mynediad i ganolfannau ailgylchu

| Y MATH O GERBYD | MYNEDIAD |
|---|---|
| Car (gan gynnwys ceir stad), 4x4, SUV, cerbyd cludo pobl a fan ar ffurf car gyda ffenestri ar yr ochr yn y cefn, ac ail res o seddi. | Caniateir |
|   Yr holl gerbydau uchod sy'n tynnu trelars â gwely hyd at 2.44 metr (8 troedfedd) waeth faint o echelau sydd ganddynt. | Caniateir |
| *Pickup* cab dwbl, gyda ffenestri ar yr ochr yn y cefn ac ail res o seddi gyda neu heb ddarn llwytho amgaeedig. | Caniateir |
| *Pickup* cab dwbl (fel yr uchod) sy'n tynnu trelar ag uchafswm hyd gwely o 2.44 metr (8 troedfedd) - **ANGEN HAWLEN*** | |
| Fan â phaneli bach heb drelar neu gyda threlar ag uchafswm hyd gwely o 2.44 metr (8 troedfedd) - **ANGEN HAWLEN*** | |
| Fan â phaneli 3.5 tunnell neu lai a *pickup* cab sengl - **ANGEN HAWLEN*** (dim trelars gyda'r cerbydau hyn) | |
| Faniau ceffylau neu gerbydau amaethyddol. | Ni Chaniateir |
| Cerbydau dros 3.5 tunnell gan gynnwys faniau bocs a phaneli. | Ni Chaniateir |

Mae ***Hawlenni** am ddim a gellir gwneud cais am un ar-lein drwy fynd i www.sirgar.llyw.cymru/ailgylchu
Os ydych yn ansicr a oes angen un ar eich cerbyd, gallwch ddefnyddio ein gwiriwr ar-lein.

**Cerbydau Hurio** Os ydych yn defnyddio'r cyfleusterau â fan rydych wedi'i hurio am gyfnod byr, dim ond gwastraff y cartref y bydd hawl gennych ei waredu. Bydd angen ichi ddarparu cytundeb hurio a phrawf preswylio ar y safle. Mae'n rhaid i'r cytundeb hurio fod am 3 diwrnod neu lai.

- **Ni fydd angen hawlenni ar gyfer cerbydau wedi'u haddasu at ddefnydd preswylwyr anabl.**
- **Ni chaniateir unrhyw wastraff masnachol/diwydiannol yn y canolfannau ailgylchu.**

GD5754